

BARLOW, WILLIAM (1499?-1568), Esgob Tyddewi.

Enw: William Barlow
Dyddiad geni: 1499?
Dyddiad marw: 1568
Rhiant: Christian Barlow
Rhiant: John Barlow
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: Esgob Tyddewi
Maes gweithgaredd: Crefydd
Awdur: Glanmor Williams

Ganwyd yn swydd Essex, yn fab i John a Christian Barlow. Bu'n ganon Awstinaidd yn S. Osyth, Essex, ac yn Rhydychen, lle y dywedir iddo raddio'n ddoethur mewn diwinyddiaeth. Ar ôl bod yn brior tri thy bychan, Blackmore, Tiptree, a Lees, daeth yn brior Bromehill yn 1524, hyd ddiddymiad y ty hwnnw gan Wolsey yn 1528. Y mae cwrs ei yrfa, 1528-1534, yn dywyll. Hwyrach ei fod yn gennad diplomatig dros y brenin, neu y mae'n bosibl mai ef oedd y brawd Jerome Barlow, awdur *The Burial of the Mass, A Dialogue between a Gentleman and a Husbandman*, a phamffledi gwrthbabyddol eraill, er iddo ddatgyffesu, a chyhoeddi yn 1531 y *Dialogue ... of These Lutheran Factions* (ailargraffwyd yn 1553) yn erbyn y Lutheriaid.

Trwy ffafr Anne Boleyn, daeth yn brior Hwlfordd yn 1534, ac oddi yno cwynai'n arw wrth Cromwell rhag gelyniaeth leol yn erbyn diwygiad. Symudwyd ef i Bisham yn 1535 a'i anfon i'r Alban yn gennad dros y brenin. Etholwyd ef yn esgob Llanelwy, Ionawr 1536, ond symudwyd ef i Dyddewi yn ddioed. Nid oes cofnod o'i gysegriad. Bu cynnen frwd rhyngddo a'i gabidwl ar bynciau ffydd a disgyblaeth. Ni allodd fynd â'i eglwys gadeiriol i Gaerfyrddin na sefydlu ysgol ramadeg yno, ond llwyddodd i sefydlu Coleg Crist, Aberhonddu, yn 1542. Trosglwyddodd faenor werthfawr Llantyfai (Lamphey) i'r brenin, a'i cyflwynodd yn ei dro i [Sir Richard Devereux](#), bu farw Awst 1568.

Symudwyd Barlow i esgobaeth Caerfaddon yn 1548, ac 'ymddiswyddodd' yn 1553. Ar ôl cael ei garcharu ddwywaith am geisio dianc, ffôdd i'r Cyfandir yn gynnar yn 1555, a thariodd yn yr Almaen a Phwyl hyd 1558. Bu iddo ran yng nghysegriad Parker, a daeth yn esgob Chichester, lle y bu farw yn 1568. Gadawodd ddau fab ar ei ôl, a phum merch, â phob yr un o'r merched yn briod ag esgob.

Ei frawd, ROGER BARLOW, a seiliodd deulu enwog Slebech. Yr oedd yn farsianiwr ac yn forwr o fri. Yn 1546 prynodd ef a'i frawd THOMAS BARLOW, rheithor Catfield yn Norfolk, diroedd ysbyty Slebech, a thiroedd priordy Hwlfordd, a thy'r Brodyr Duon yno. Bu Roger Barlow wedyn yn ustus heddwch ac yn 'vice-admiral' yn y sir.

Yr oedd brawd arall, JOHN BARLOW, a raddiodd yn M.A. o Rydychen yn 1521, ac a fu ar ôl hynny'n ddiplomat. Penodwyd ef yn archddiacon Westbury-on-Trym, ac yn ddiweddarach yn ddeon Caerwrangon. Bu'n effro iawn yn y Deheudir, yn enwedig pan oedd William Barlow yn esgob Tyddewi.

Awdur

Syr Glanmor Williams

Ffynonellau

Oxford Dictionary of National Biography

Letters and Papers, Foreign and Domestic, of the Reign of Henry VIII

Archaeologia Cambrensis, xxiii

Barlow, *Barlow Family Records* (1932)

Garrett, *The Marian Exiles, a study of the origins of Elizabethan Puritanism* (1938)

Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, v

Review of English Studies, iv

Rupp, *Studies in the making of the English Protestant Tradition, mainly in the reign of Henry VIII* (1947)

Taylor, *The Hakluyt Society*, lxix

West Wales Historical Records (1910–29)

Bulletin of the Board of Celtic Studies, xv, 212-24

Dolenni Ychwanegol

VIAF: [39364216](#)

Wikidata: [Q8005070](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

